tafod elái

MEDI 2021

Rhif 360

Pris £1

## Llwyddiant Cenedlaethol



Llongyfarchiadau enfawr i ddau ddisgbl o flwyddyn 10 Ysgol Llanhari sef Arianwen ac Anton ar gamp arbennig mewn cystadleuaeth gyfieithu genedlaethol a drefnwyd gan Brifysgol Queens Rhydychen. Allan o fil o ymgeiswyr, enillodd Anton y wobr gyntaf am Almaeneg ac Arianwen glod arbennig ar gyfer Ffrangeg. Yn dilyn y llwyddiant yma, bydd Anton nawr yn cystadlu ar lefel Brydeinig.

## Noson o Haf





Ar noson braf ym mis Gorffennaf daeth torf i wrando ar Gwilym Bowen Rhys yn canu yn eisteddle agored Canolfan Garth Olwg. Braf oedd cael clywed cerddoriaeth a chanu Cymraeg byw unwaith eto.

## Wisgi a Jin

Mae tad a mab, Andy a Rhys Mallows, am agor distilldy newydd ym Mharc Coed Elái, Llantrisant. Disgwylir cyflogi 30 o bobl i gynhyrchu a photelu whisgi, gin a gwirodydd eraill. Bydd Bourbon Cymreig arbennig yn rhan o'r arlwy. Cedwir y bourbon mewn casgenni derw yn yr Unol Daleithiau am ddwy flynedd cyn ei fewnforio i Gymru a'i gymysgu â dŵr lleol.

Bydd Cwmni Cygnet o Abertawe yn symud i Ddistilldy Castell Hensol i ehangu'r cynnyrch fydd ar gael yno. Sefydlwyd Cygnet gan Dai Wakely yn 2018 ac mae ei dîm wedi ennill gwobrwyon am safon eu gwirodydd jin.

Cychwynodd y distilldy yn Hensol yn 2019 ac mae'n cynnwys gwaith potelu a labelu. Disgwylir agor y safle i ymwelwyr gan ei wneud yn un o atyniadau newydd yr ardal.

## Eisteddfod Amgen

Bu amryw o'r ardal yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni mewn amodau oedd llawer yn wahanol i'r arferol. Llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran ac i'r Eisteddfod am roi sioe arbennig ar ein cyfer.



Dawns Stepio i bâr neu driawd 1af Daniel a Morus
Dawns Stepio i Grŵp 1af Enlli, Lleucu, Daniel a Morus
Unawd Offerynnol o dan 16 oed 1af Erin Fflur Jardine
Dawns Stepio Unigol i rai 18 oed a throsodd 1af Daniel Calan Jones,
Dawns Stepio Unigol i rai o dan 18 oed, gan ddefnyddio camau ac alawon Cymreig 2il Morus Caradog Jones

## Dathlu hanner canrif Y Babell Wyddonol



Yn Eisteddfod Bangor 1971 agorwyd Y Babell Wyddonol ar y maes am y tro cyntaf ac ymhlith yr arloeswyr roedd Guto Roberts, Creigiau. Bu Guto yn hel atgofion ar raglen arbennig ar yr Eisteddfod Amgen. Bu'n sôn am y gwahanol arbrofion ddangoswyd. Datblygodd yr arddangosfa a chystadleuaeth 'Cael Wil i'w Wely' gyda timau yn cyflawni tasgau o fewn tair awr. Bu Guto yn Drefnydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod o 2002 ac roedd am gael canolbwynt gwyddonol arbennig fyddai'n tynnu sylw. Yn 2003 crewyd model enfawr yn nenfwd y Babell Wyddonol o'r planedau'n troi o amgylch yr haul. Mae Guto yn falch iawn fod yr Eisteddfod wedi newid gyda'r oes a'r Babell Wyddonol wedi rhoi mwynhad enfawr i lu o blant, pobl ifanc ac oedolion ac wedi llwyddo i ennyn diddordeb ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Hydref
i gyrraedd erbyn
24 Medi 2021

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno



# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Merched y Wawr**
O'r diwedd cyfle i aelodau'r gangen i gwrdd ar gyfer cyfarfod cyntaf y tymor newydd. Os oes awydd gyda chi i ymuno dewch i Glwb y Bont nos Iau, Medi'r 9fed am 7.00 p.m. Cyfle i gymdeithasu.

Yn ein cyfarfod mis Hydref (eto yng Nghlwb y Bont) fe fydd yr artist amryddawn Anthony Evans, Caerdydd yn sôn am a dangos ei waith. Nol at Zoom mis Tachwedd pan fydd Mike Ebbsworth yn cynnal sesiwn Pilates.

**Llongyfarchiadau**
Ymddeoliad hapus iawn i Siân Crowley, Graigwen wnaeth orffen ei gyrfa fel athrawes yn Ysgol Gymraeg Llyn y Forwyn ym mis Gorffennaf.

Yr un dymuniad da i Anwen Robbins a Frances Charles wrth iddynt adael Ysgol Evan James ar ôl cyfnod hir yn dysgu yno.

**Swyddfa newydd**
Mae nifer o wirfoddolwyr wedi bod yn brysur yn peintio a thwtio'r hen siop wlân drws nesa i adeilad M&S yn ystod yr wythnosau diwethaf. Fe fydd swyddfa newydd Heledd Fychan A.S. Plaid Cymru yn agor yn swyddogol ar Fedi'r 6ed. Galwch heibio!

**Cyfarchion**
Mae Tadcu a Mamgu Dodd, Lan Close, Graigwen yn falch iawn o'u hwyres, Ela Minas. Penodwyd Ela yn un o brif swyddogion Ysgol Garth Olwg. Mae hi'n ferch i Beth a nith i Magi - y ddwy ohonynt yn gyn ddisgyblion yr ysgol. Pob lwc!

**Bon Voyage**
Pob lwc a dymuniadau da i Dani Thomas, Graigwen wrth iddo gychwyn am Guatemala am gyfnod i ddysgu Saesneg.

**Pob dymuniad da**
Ar ôl gorfod gohirio llynedd o achos amgylchiadau y pandemig fe gynhaliwyd priodas Carwyn ac Elinor ar Awst 14eg yn Eglwys Llangyndeyrn. Mae Carwyn yn fab i Bethan a Martyn Geraint, Ynysybwl. Cawsant gyfle i ddathlu yng Ngwesty'r Mansion House, Llansteffan. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau!

**Cyfarthion!**
Croeso i Cardi - aelod newydd i gartref Menna Lewis. Mae'r cocker spaniel bach du wedi denu nifer o ymwelwyr i gwrdd ag e!!

**Clwb y Bont**
Llongyfarchiadau i Peter a Diane Davies, Graigwen. Nhw sy'n derbyn £100 o wobr ddiweddara Clwb 200.

Mae'r Clwb wedi agor ar ei newydd wedd ar gyfer ambell ddigwyddiad arbennig. Ym mis Gorffennaf cynhaliwyd noson gomedi a noson gan Mei Gwynedd. Fe fydd y Clwb yn cau am gyfnod yn nhymor yr hydref gan obeithio cychwyn ar fwy o welliannau i'r adeilad.



**Clwb Llyfrau**
Fe fydd y clwb yn parhau i gwrdd ar Zoom. Ymunwch â ni nos Lun, Medi'r 13eg i drafod y cyfrolau sydd wedi bod wrth erchwyn eich gwely!

## Clwb y Dwrlyn a Chylch Cadwgan

Mae trefniadau ar y gweill i ail-gychwyn ar weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol yn yr ardal. Mae Clwb y Dwrlyn am gynnal nifer o nosweithiau Zoom yn yr hydref. I ddechrau Noson gyda Twm Morys a Gwyneth Glyn. Yna noson gyda Rhys Dafis yn hel atgofion am ei ddosbarthiadau barddoniaeth. A Sgwrs dan y Lloer arbennig gyda Elin Fflur yn cael ei holi gan Huw Llywelyn Davies. I gwblhau'r tymor gobeithir cynnal Cinio Nadolig yn De Courcey's. Ceir rhagor o fanlion cyn bo hir.

Mae Cymdeithasau'r ardal wedi dod ynghyd i drefnu rhaglen Cylch Cadwgan ac mae'n braf deall bod Glenys Roberts wedi bodloni i olynu Rowland Wynne fel cydlynydd y Cylch.

## Côr Godre'r Garth

Ail-gychwynodd y côr cymysg ymarfer ym mis Gorffennaf ac mae gobaith y cawn gyngerdd Nadolig eleni. Mae croeso i aelodau newydd ddod i ymarferion ar nos Sul am 7:30yh yn Neuadd Efail Isaf.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Taith i Noddi Cymdeithas Alzheimer**

Llongyfarchiadau i Rhian a Medi Warburton wedi iddynt lwyddo i godi swm teilwng iawn ar gyfer elusen Alzheimer. Dyma adroddiad Rhian am eu taith.

"Penderfynais dderbyn her Cymdeithas Alzheimer i gerdded i fyny a lawr Bannau Brycheiniog am 13 milltir ar y 4ydd o Orffennaf. Roedd y ferch, Medi, am ddod gyda mi. Ond pan hysbysodd y Gymdeithas y byddai rhaid gohirio nes y 4ydd o Fedi, cynigiasant i'r gwirfoddolwyr gwblhau eu teithiau o'u dewis a'u hyd eu hunain hefyd. Penderfynodd y ddwy ohonom y byddem yn llai tebygol o golli'n ffordd wrth gerdded rhan o lwybr yr arfordir.

Wedi oedi oherwydd ymrwymiadau gwaith Medi, aethom ymaith o'r diwedd ar y 14eg Gorffennaf o ardal Southerndown i Lanilltud Fawr, rhyw wyth milltir mwy realistig na'r hanner marathon a feddyliais ar gyfer Y Bannau! Er bod yr awel yn gref ar brydiau, gwobrwywyd ni gan heulwen braf a chanfod teulu o gudyll coch yn ymarfer eu hedfan ar y clogwyni. Yn nes ymlaen daeth brân goesgoch i'r golwg ar ei nyth ac yna hebog uwch ein pennau. Taith bleserus felly, heb fod yn or-heriol, ond â nod ddifrifol iddi o godi arian i gynorthwyo y rhai sy'n dioddef o afiechyd Alzheimer neu'n gofalu amdanynt. Bu Medi ei hun yn rhoi seibiant i'w chyfeilles flinedig drwy ofalu am ei mam dros nos ac un dydd ar y penwythnosau yn ddiweddar. Dyma pam mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw gyfraniad – mawr neu fach. Os hoffech chi gyfrannu hefyd gellir anfon siec yn uniongyrchol at: **Alzheimer's Society, Scott Lodge, Scott Road, Plymouth PL2 3DU.** Neu gellir talu dros y ffôn: **0330 333 0804.** Diolch i bawb a noddodd ni'n dwy i anfon swm sylweddol atynt yn barod."



Rhian Warburton

**Gerddi Agored Pentyrch**

Ar ôl gorfod newid trefniadau'r llynedd roedd hi'n braf gweld rhai o erddi'r pentref yn agored i ymwelwyr unwaith eto eleni. Doedd y tywydd ar y penwythnos cyntaf ym mis Gorffennaf ddim yn orgaredig ond fe gafwyd 245 o ymwelwyr, pawb yn mwynhau crwydro o ardd i ardd ac yn rhyfeddu at yr hyn oedd yn eu haros. Agorwyd pedair ar ddeg o erddi a rheini'n amrywio o'r traddodiadol i'r modern, yn llawn lliw a syniadau. Darparwyd lluniaeth y tu allan i Neuadd y Pentref ac roedd arwerthiant planhigion yn un o dai Cefn Bychan. Diolch i'r holl wirfoddolwyr a wnaeth y penwythnos yn gymaint o lwyddiant ac wrth gwrs i'r garddwyr diwyd am eu holl waith paratoi ac am groesawu'r ymwelwyr i'w gerddi. Rhannwyd yr elw rhwng Ambiwlans Awyr Cymru a phrosiectau lleol i harddu'r pentref.



Rhan o ardd arbennig Vince a Denise James ar Heol y Pentref. Roedd croeso Cymraeg yn ein haros yma.



Barbara a Bill Rodd sydd yn arddwyr o fri ac wedi bod yn agor eu gardd hyfryd i ymwelwyr ers blynyddoedd.

## Cronfa Rieni a Staff Plasmawr( CRASP)




Mae Cronfa Rieni a Staff Plasmawr (CRASP) yn ddiolchgar iawn i Gronfa Glyndŵr am eu grant tuag at ein prosiect ysgol diweddaraf. Mae Lles yn ran bwysig iawn o flaenoriaethau yr ysgol ac mae hyn wedi bod yn bwysicach nag erioed dros y flwyddyn diwethaf. O ganlyniad mae'r ysgol wedi penderfynnu addasu y llawlyfr blynyddol gan greu llawlyfr sydd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a bydd yn cyfeirio disgyblion (a theuluoedd) at fudiadau a gwefannau arbenigol a all helpu.

Elusen yw Cronfa Glyndwr a sefydlwyd yn 1963 gan Trefor a Gwyneth Morgan i hyrwyddo addysg Gymraeg a chynnig cymorth i rieni sydd eisiau i'w plant fwynhau manteision addysg ddwy-ieithog. Ei nod yw 'gwneud gwahaniaeth'. Mae'r Gronfa yn cynnig grantiau i gylchoedd Meithrin a Ti a Fi, ysgolion cyfrwng Cymraeg a Mentrau Iaith i'w helpu i farchnata eu darpariaeth ac i wella eu hadnoddau. Mae'r gronfa yn ddiolchgar iawn i'r noddwyr hael sy'n eu cefnogi yn ariannol, oherwydd hebddynt ni fyddai modd i'r Gronfa ddiwallu'r galw. Byddai'r Gronfa wrth eu bodd yn denu rhagor o noddwyr i'w cefnogi. Ceir mwy o wybodaeth ar eu gwefan cronfaglyndwr.cymru (yn hyrwyddo

**Dymuniadau Da**

Mae Peter Griffiths ac Iwan Griffith wedi derbyn clun newydd yn ddiweddar ond yn gwella'n dda erbyn hyn. Dymunwn yn dda i'r ddau yn dilyn y driniaeth.

**Ffarm y Garth**

Ar raglen Troi'r Tir ar Radio Cymru yn gynnar fore Sul Gorffennaf 25 roedd Ethan Williams un o feibion ffarm Y Garth yn trafod eu menter lwyddiannus yn gwerthu bocsys cig (eidion, porc neu oen) i gwsmeriaid. Cynnyrch y fferm yw'r cig gan gynnwys Da Duon Cymreig a Defaid Mynydd Cymreig sy'n pori ar y Garth.

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Cydymdeimlo**

Trist iawn gorfod cofnodi i ni golli gŵr bonheddig arbennig iawn ganol mis Gorffennaf, sef y bonwr Brynmor Jones, Parc y Coed. Roedd Bryn yn gymeriad. Gŵr hynod ddysgedig a diwylliedig, parod ei gymwynas, difyr ei barabl. Yn dynnwr coes ac yn gwmniwr heb ei ail. Yn ei waith - sef llyfrgellydd hanes lleol Llyfrgell Ganolog Caerdydd, ymfalchiai mewn cynorthwyo pwy bynnag y deuai yno i ymchwilio. Byddai bob amser yn medru arwain y darllenydd i'r man cywir, priodol. Mae ein cydymdeimlad llwyraf yn cael ei estyn at Gareth a Bethan - y plant a fu'n ofalus ac yn driw i Bryn hyd y diwedd. Cynhaliwyd angladd breifat yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd - ddydd Mawrth, y 27ain o Orffennaf. Diolch o galon i Idris Reynolds am y deyrnged arbennig i Brynmor.

**I gofio Brynmor**

Un o blant cefen gwlad oedd Brynmor ac er iddo dreulio dros drigain mlynedd yn sŵn a dwndwr Caerdydd ni lwyddodd y brifddinas i ddylanwadu fawr ar y gwladwr a drigai ynddo. Fe'i magwyd ar fferm Penparce ger Llwyndafydd yng ngodre Ceredigion a hynny o dan gysgod llythrennol a delweddol Foel Gilie. Yr oedd ei dad yn fardd gwlad crefftus ac yn awdur cyfrol o gerddi, 'Grawn y Grynnau', tra bod ei fam yn hannu o un o hen deuluoedd yr ardal. Yno, yn sŵn y gynghanedd, aeth eisteddfodau lleol ac ymrysonau beirdd yn ffordd o fyw a gallai Brynmor ddyfynnu'n helaeth o gampau geiriol Alun Cilie, Isfoel, Tydfor a Dic allan o lyfrgell y cof. Medrai yntau, fel ei chwaer Eilir, weithio englynion derbyniol iawn i ateb unrhyw alw.

Ar ôl gadael Ysgol Sir Aberaeron aeth i Goleg Prifysgol Bangor cyn dychwelyd i weini tymor o dan ofal Alun R. Edwards yn Llyfrgell Ceredigion. Symudodd ymlaen wedyn i Goleg Loughborough i gymhwyso'n y grefft cyn cael ei benodi i fod yn aelod o staff Llyfrgell Ganolog Caerdydd. Arhosodd yno am ddeugain mlynedd ac mae'n deg dweud fod yr apwyntiad hwnnw wedi penderfynu cwrs gweddill ei fywyd.

Dyn llyfrau oedd Brynmor a byddai rhoi cyfrol yn ei ddwylo fel taflu pêl rygbi at Barry John. Âi ati yn syth i'w mwytho a'i hanwylo gyda blaenau'i fysedd synhwyrus. Sylweddolodd fod casgliad cyfoethog o lyfrau Cymraeg a Chymreig o fewn ei afael ac aeth ati i roi trefn arnynt a'u gwneud yn hygyrch i'r cyhoedd. Gwelai ei waith a thros y blynyddoedd daeth lleng o academyddion, cyflwynwyr a chynhyrchwyr y cyfryngau, ynghyd â gwleidyddion i ddibynnu ar ei arbenigedd.



Byddai'r Athro Hywel Teifi Edwards yn gweiddi am Brynmor cyn gynted ag y croesai'r trothwy a chlywais Hywel Gwynfryn yn canu ei glodydd fel turiwr gwybodaeth heb ei ail. I nifer helaeth o ddefnyddwyr wyneb a llais Brynmor oedd gan Lyfrgell Caerdydd.

Ond peidied neb a thybio mai gwaith oedd popeth iddo. O dro i dro fe fyddai ef a'i ffrind oesol, Iorwerth Davies, a ddaeth yn Llyfrgellydd Powys yn ddiweddarach, yn llawn triciau. Un ohonynt fyddai ffonio ymholiadiau i'r Adran Ymchwil gan ddynwared osgo a llais rhai o ddefnyddwyr mwyaf awdurdodol y Llyfrgell.

Aelod arall o'r staff yn y blynyddoedd cynnar hyn oedd Gillian Chainey, merch ifanc a ddaeth yn wraig a chymar oes iddo. Fe'u priodwyd o dan gysgod cerflun Jacob Epstein yn Eglwys Gadeiriol Llan-daf. Buont yn byw am gyfnod byr ym Mhenarth cyn symud allan i bentref Creigiau lle treuliodd y ddau y gweddill o'u dyddiau ym Mharc-y-coed gyda chaeau gwair o'u hamgylch. Yr oedd yn byw yn y wlad unwaith eto ac yn rhan o'r bywiogrwydd pentrefol a fodolai yno wrth i bobol ddwad o'r Gogledd a'r Gorllewin i ail-Gymreigio'r ardal yn sylweddol. Yno y magwyd Bethan a Gareth ac er mai Saesneg oedd iaith Gillian mae'r ddau blentyn yn rhugl yn y Gymraeg.

Yn yr un modd ymdaflodd ei hun i fywyd Cymraeg y brifddinas a'i chymdeithasau megis y Cymrodorion a'r Cylch Llyfryddol a chafodd hafan ysbrydol yn Eglwys Dewi Sant lle bu'n aelod ffyddlon drwy'r holl flynyddoedd. Ar ben hynny, merch o Gaerdydd oedd Gillian, a bu'r briodas yn gyfrwng i dynhau'r berthynas rhynddo ef a'i fro fabwysiedig. Yr oedd ganddo bellach deulu-yng-nghyfraith a llu o ffrindiau a chydnabod newydd i'w angori yno.

Yr oedd Gillian, fel Brynmor, yn llyfrgellydd wrth reddf a threuliodd y rhan fwyaf o'i gyrfa broffesiynol fel aelod o'r Adran Gerdd yn yr Athrofa yng Nghaerdydd. Yno yn ei hamser sbâr ymgymrodd â'r dasg ddi-ddiwedd o greu catalog cynhwysfawr a fyddai'n hwyluso'r ffordd i'r ymchwilwyr a fyddai yn gweithio ym maes cerddoriaeth Gymreig yn y dyfodol. Ac ers ei cholli rhyw wyth mlynedd yn ôl bu Brynmor wrthi yn ychwanegu ato a'i ddiweddaru. Ei obaith oedd y byddai'r Llyfrgell Genedlaethol yn ysgwyddo'r baich o gynnal y prosiect rhag i lafur cariad y ddau ohonynt dros flynyddoedd lawer fynd yn ofer. Mae'n adnodd rhy werthfawr i'w golli.

Bu colli Gillian yn ergyd galed iddo wrth i'w iechyd yntau freuo. Ergyd arall oedd colli ei unig chwaer, Eilir, llynedd. Eto. daliodd ati yn ddewr, heb rwgnach na hunan-dosturi, i gadw'r ffydd. Bydd y golled i'w theimlo gan lawer un mewn llawer man ond mae'n cydymdeimlad pennaf yn mynd at Bethan a Gareth, ac at Eleni, Anest a Dillon o'r genhedlaeth nesaf a oedd mor agos at ei galon. Ac mae'n ddiddorol nodi, gan ei fod yn aelod o'r Clwb, iddo drefnu fod dwy o lorïau Eddie Stobart yn cael eu henwi ar ôl y ddwy wyres, a phetai Dillon yn ferch byddai yntau hefyd wedi cael yr un anrhydedd.

Ymroes â llyfrau'r oesoedd - a hanes
llawer hŷn na'r silffoedd,
yn yr Aes ymchwiliwr oedd
a thad gwybodaeth ydoedd.

Idris Reynolds

**Dosbarth Cyntaf!**

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Powell ar ennill gradd meistr (MEng.) gyda dosbarth cyntaf mewn Peirianneg Awyrofod o Brifysgol Caerfaddon. Cwrs 5 mlynedd oedd yn cynnwys blwyddyn o brofiad gwaith gyda chwmni peirianneg Meggitt lle bu'n gweithio ar synhwyryddion peiriant awyrennau. Yn anffodus ni fu seremoni graddio eleni. Gobeithio daw cyfle eto i ddathlu ei lwyddiant! Y sialens nesaf yw chwilio am swydd yn y maes yma! Pob lwc gyda'r chwilio - ond gwyliau bach haeddiannol gynta glei!



**Prif ddisgyblion Ysgol Plasmawr**

Mae cyn ddisgybl o Ysgol Gynradd Creigiau eto yn un o brif ddisgyblion Ysgol Plasmawr.

Llongyfarchiadau mawr i Harri Samuel ar gael ei ethol a phob lwc yn dy rol newydd

**Ymddeoliad**

Pob hapusrwydd a iechyd i Anwen Robbins ar ei hymddeoliad ar ol blynyddoedd lu yn Ysgol Evan James. Gobeithio gei di a Dave amser da wrth fynd am 'spa' i'r Celtic Manor ac i fwynhau gwin coch yn yr Eidal eto cyn hir.

**Croesawu Cymry bach newydd!**

Braf cael croesawu pedwar o Gymry bach newydd i'r Creigiau! Symudodd Gavin, Elin, Osian a Macsen i'r pentre ddechrau'r haf eleni! Cafodd Gavin ei fagu yn Nhreorci ond symudodd i Gaerdydd rhyw ugain mlynedd yn ôl. Bellach mae'n briod ag Elin (Nash gynt). Yn y Tyllgoed cafodd Elin ei magu a mynychodd hi ysgolion Coed y Gof a Glantaf. Mae ganddynt ddau fab - Osian sy'n chwech a Macsen sy'n bedair. Maent yn mynd i Ysgol Creigiau ac wrth eu bodd yno. Neges gan Elin - *'Ryn ni'n gwerthfawrogi cyfeillgarwch trigolion Creigiau ac yn falch iawn i fod yn rhan o'r gymuned.'* Pob hapusrwydd yn eich cartref newydd!

Englyn >

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Gohebydd y Mis: Margaret White**

**Uwchgynhadledd sefydliad rhyngwladol 'One Young World' 2021**
Cafodd Sioned Scott yr anrhydedd o fynychu'r gynhadledd hon yn rhan o'i gwobr am ei chyflawniad o fod yn rheolwr ifanc y flwyddyn cwmni BMW. Cynhaliwyd yr uwchgynhadledd yn Munich gyda phobl ifanc o dros 190 gwlad yn bresennol a rhai 'yno' yn rhithiol. Roedd Sioned yn ffodus ei bod wedi cael ei dau frechiad 'Covid' a dim ond llai na diwrnod o rybudd gafodd hi am y trefniadau cyn iddi hedfan i Munich ar 19eg o Orffennaf.

Sefydlwyd One Young World yn 2009 gan Kate Robertson a David Jones, dau sy'n hysbys yn fyd-eang yn y byd busnes. Pwrpas y sefydliad yw nodi, hyrwyddo a chysylltu arweinwyr ifanc mwyaf effeithiol y byd i greu byd gwell, gydag arweinyddiaeth mwy cyfrifol a mwy effeithiol. Amcan y gynhadledd flynyddol yw rhoi cyfle i gynrychiolwyr gymryd rhan mewn pedwar diwrnod o areithiau, paneli, rhwydweithio a gweithdai. Yn ogystal â gwrando ar brif siaradwyr (gan gynnwys 34 arweinwr ifanc eithriadol) mae gan gynrychiolwyr gyfle i herio arweinwyr y byd, rhyngweithio a chael eu mentora gan ddylanwadwyr. Eleni roedd Angela Merkel, Yr Athro Muhammad Yunus, Bob Geldof, Halima Aden, Ian Somerhalder, Lewis Hamilton, Mary Robinson a Thomas Balch ymysg rhai o'r enwogion oedd yn cyfrannu at y sesiynau.

Dywedodd Sioned ei bod wedi cwrdd â llawer o bobl ifanc anhygoel ac mae'r profiad wedi cadarnhau iddi pa mor bwysig yw addysg. Mae hefyd yn credu bod y ddwy neges yma yn rhai pwysig - 'Nid ydych byth yn rhy ifanc i arwain a byth yn rhy hen i ddysgu' a 'byddwch y person yr oedd ei angen arnoch pan oeddech yn ifanc'. O ganlyniad i'r uwchgynhadledd hon mae hi'n gobeithio ehangu ei rôl fel mentor i ferched sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn peirianneg a busnes.

Gan fod cynifer o'r gweithgareddau yn cael eu cynnal ar safle pencadlys BMW roedd hyn yn rhoi cyfle i Sioned dreulio amser gyda rhai o brif reolwyr y cwmni yn y dyddiau'n arwain i fyny at yr uwchgynhadledd. Ar hyn o bryd mae Sioned yn rheolwr logisteg a strategaeth gyda Rolls-Royce yn Goodwood. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gwaelod-Y-Garth ac Ysgol Gyfun Plasmawr.

**Gwella**
Bu Geraint Price yn cael llawdriniaeth yn ysbyty Llantrisant yn ddiweddar ond mae e'n gwella yn dda iawn ar ôl ei brofiad cyntaf erioed o fod mewn theatr ysbyty!!!!

Englyn croeso gan Hannah i deulu Gavin ac Elin Haf i'r Creigiau

Daeth Elin Haf a Gavin - i glwydo
Yn glyd ar ein brigyn,
Trydar yn bâr ar y bryn,
I'n parthau maent yn perthyn.

H.R.

menter caerdydd

## Dechrau Tymor Prysur o Weithgareddau

Wedi llu o weithgareddau i blant a phobl ifanc dros yr haf, digon o heulwen a llawer o hwyl, mae timau gweithgar Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn barod ar gyfer prysurdeb tymor yr hydref.

I'r rhai sy'n ymddiddori mewn hanes, byddwn yn rhedeg cyrsiau byrion ar Zoom, 3 wythnos o hyd, dros y misoedd nesaf ar nosweithiau Llun. Bydd y cwrs cyntaf, dan ofal yr hanesydd Frank Olding, yn canolbwyntio ar gestyll y de-ddwyrain gan ddechrau nos Lun, 27 Medi am 7.30yh. Bydd y Clwb Cerdd yn parhau hefyd, yn fisol y tro hwn, gan ddechrau 'nôl nos Fawrth, 21 Medi.

Yr Athro Angharad Davies, microbiolegydd clinigol academaidd o Brifysgol Abertawe, fydd ein gwestai yn Sgwrs y Mis, nos Iau, 16 Medi. Y pandemig fydd yn cymryd ei sylw wrth iddi ofyn, 'Ai ein ffordd ni o fyw sydd ar fai?'

Bydd llawer o'r hen ffefrynnau yn dychwelyd wrth gwrs – gwersi Sbaeneg; Y Gerddorfa Ukulele; Ukulele i Ddechreuwyr, Pilates a'r Clwb Garddio. Bydd Clwb Ffasiwn hefyd i bobl ifanc mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru. Dewch chi o hyd i'r holl fanylion ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol wrth i ni gadarnhau'r dyddiadau.

Byddwn yn parhau â'n clybiau poblogaidd i blant a phobl ifainc gan gynnwys sesiynau dawns a drama, Sbaeneg, Ffrangeg a'r Clwb Karate ym Mhenarth. Bydd croeso cynnes i deuluoedd gyda babanod a phlant bach yn ein sesiynau Amser Stori - neu beth am ymuno â ni ar gyfer Bygi Heini yn y parc?

Am fwy o wybodaeth am ein holl sesiynau, ewch i: mentercaerdydd.cymru / neu'r cyfryngau cymdeithasol. Neu cysylltwch: post@mentercaerdydd.cymru / 2068 9888.


## Cymraeg yn y Gymuned




Yn Eisiau

Pobl sydd á diddordeb mewn helpu i redeg grwp Cymraeg i ddechreuwyr yn Yr Hen Lyfrgell Porth.

Cysylltwch á gweithgareddau@menteriaith.cymru

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

# Curo'r Corona'n Coginio

## Eluned Davies-Scott

**Brenhinllys**

Rhaid imi gyfaddef fy mod yn falch iawn gyda fy ymdrechion i dyfu dau fath o frenhinllys eleni am y tro cyntaf erioed. Mae'n un o fy hoff berlysiau ar gyfer paratoi bwydydd yn ystod yr haf. Mae'n bersawrus gan flasu ac arogli rhywle rhwng anis, sinamon, lemwn a phupur gan gyfrannu at amrywiaeth o rysetiau hafaidd sawrus a melys. Mae'r cogydd Andrew Dargue yn ei glodfori gan ei alw yn dywysog y perlysiau ac mae'r enw Saesneg 'basil' yn tarddu o'r Lladin *basilius* sef planhigyn brenhinol. Nawr rydych yn gwybod y rheswm am ei enw Cymreig!



Daeth y brenhinllys i Brydain Fawr o Dde Ewrop yn y 16eg ganrif. Yn yr hen ddyddiau roedd rhai yn credu ei fod yn bridio sgorpionau ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn bwydydd o India o achos ei gysylltiad â Vishnu, y duw Hindŵaidd. Mae gwahanol fathau o frenhinllys - math 'blewog', un sydd â dail porffor, mathau sydd â phersawr lemwn a phersawr mintys ac un sy'n cael ei alw brenhinllys Thai. Ceir math sy'n tyfu fel llwyni hefyd sydd ag arogl tebyg i glofs ac yn cael ei ddefnyddio fel ymlid mosgitos; efallai mai'r math yma sy'n cael ei ddarlunio yng ngherdd enwog John Keats *'Isabella, or the pot of basil'* sydd wedi'i haddasu o stori yn Decameron (casgliad o straeon / nofelau gan yr awdur Eidalaidd o'r 14eg ganrif Giovanni Boccaccio ). Mae'n adrodd hanes merch ifanc y mae ei theulu'n bwriadu ei phriodi ag uchelwr uchel. Mae hi'n cwympo mewn cariad â Lorenzo, un o weithwyr ei brodyr. Wrth glywed hyn mae'r brodyr yn llofruddio Lorenzo ac yn claddu ei gorff. Mae Isabella'n datgladdu'r corff ac yn rhoi ei ben ym mhridd pot o frenhinllys.

*She wrapp'd it up; and for its tomb did choose*
*A garden-pot, wherein she laid it by,*
*And cover'd it with mould, and o'er it set*
*Sweet Basil, which her tears kept ever wet.*

Mae'r Tsieineaid yn defnyddio brenhinllys ffres neu sych mewn cawliau a bwydydd eraill. Yn Nhaiwan, mae pobl yn ychwanegu dail basil ffres at gawliau trwchus ac yn ffrio'r dail i weini gyda chyw iâr. Mae'r math Thai yn cael ei drwytho'n aml mewn hufen neu laeth i greu blas diddorol mewn hufen iâ neu siocledi (fel tryffls).

Yn ôl Raymond Blanc yn ei lyfr *'Kew on a Plate'* tyfir brenhinllys mewn 'plannu cydymaith' yng ngerddi Kew gan fod pryfed gwyn yn hoffi'r dail yn fwy na rhai'r planhigion tomatos.

Dail y planhigyn hwn o bosib yw'r rhai mwyaf tyner o'r holl berlysiau, maent yn cleisio'n hawdd ac yn troi'n ddu ar dymheredd is na 3C; mai hefyd yn casáu cael ei goginio am fwy nag ychydig funudau. Cynhesrwydd yw ei hoff dymheredd ac yn ddelfrydol dylai ddod yn gynnes o'r haul ar gyfer ei ddefnyddio. Nid yw'r dail yn cadw eu blas wrth gael eu sychu ond mae rhai yn awgrymu eu cadw mewn olew ac yna rhewi'r piwre mewn hambwrdd ciwbiau iâ a hefyd ei gadw mewn haenau gyda halen mewn jar wedi'i selio gan ddefnyddio'r halen i flasu sawsiau a chawliau.


Mae Nigel Slater yn cyfaddef *'Nid oes gen i lawer o ddiddordeb mewn basil oni bai bod yr haul yn tywynnu. Mae'n fwy nag unrhyw un o'r perlysiau yn gysylltiedig â'r haf, gan deimlo'n rhyfedd allan o hwylie yn y gaeaf. Basil yw'r perlysyn sy'n priodi gore gyda thomato a mozzarella gan fynd â fi i'r 'Med.' mewn tagfa o bupur, clofs a sinamon. Dyma'r perlysyn sy'n arogli fwyaf tebyg i sbeis'.* Mae'n awgrymu ei ychwanegu i salad tomatos a chaws ricotta, gyda mayonnaise a sialóts mewn dresin ar gyfer tatws newydd, ei ychwanegu i frithyll y môr sydd wedi'i ffrio mewn menyn ac mewn cawl cregyn gleision.

Gellir defnyddio dail mintys brenhinllys mewn pesto hefyd, eu defnyddio i gyflasu melon, tomatos, a salad ffrwythau. Rhowch ddail wedi'u torri'n fân mewn salad tatws, stwffin cyw iâr, berwch ddail mintys gyda bresych.

Pesto yw'r ffodd mwyaf cyfarwydd o ddefnyddio brenhinllys ond dim pawb sy'n hoff o arlleg ac mae gan Felicity Cloake rysait amgen sydd i'w gael ar wefan y 'Guardian'. Mae Delia Smith yn gwneud Salsa Verde sy'n defnyddio'r dail mewn rysáit penfras a thatws wedi eu rhostio (yn *Delia's How to Cook*, llyfr 2)



# Ryc




'Ryc – defnyddiwch y bêl!'– bloedd glir arall gan y dyfarnwr, ond mae ambell chwaraewr rygbi'n siwr o sleifio i geisio torri'r rheolau. Efallai fod rhai yn teimlo fod y gêm yn llawn o hen dricia' dan dîn, ond mae'n debyg mai'r ateb amlwg ydi fod clybiau a thimau rygbi yn unedau clòs a chyfeillgar.

Ond tybed sut mae pethau yng Nghlwb Aberysgo sy'n ganolbwynt i drydedd nofel Lleucu Fflur Jones – *Ryc*?

Y gamp gynta' i Gruffydd ydi cael ei groesawu gan yr hogia, ond peidiwch â meddwl mai rhyw ysgwyd llaw a pheint neu ddau ydi hyn. Rhaid glynu wrth yr hen drefn a phob arferiad, a dyna ddechra'r diwedd i Gruff druan.

Mae ryc go iawn yn ffurfio – cicio, gwthio, ambell frathiad efallai ac yn sgil y cyfan mae'r rheolau ar chwâl a chyfeillgarwch yn gymysgfa. Lle mae'r dyfarnwr neu'r heddlu hyd yn oed?

Crewyd y dirgelwch, a'r gamp i'r darllenwyr ydi darganfod pwy sy'n troseddu. Pwy ddylai dderbyn carden goch? Gwthiwyd gweithgareddau'r cae rygbi'n bendramwnwgl i ganol bywyd bob dydd yr ardal. Mae yna sawl cwestiwn yn cael eu gofyn a'r atebion yn amrywio ac mae'n anodd dychmygu be' fydd canlyniad y gêm yma.

Pan aeth Lleucu ati i sgwennu *Ryc* roedd yn awyddus i droedio tir newydd i faes dirgelwch a denu'r darllenwyr i ddyfalu a chwilota am atebion.

"Roedd yn golygu defnyddio dull gwahanol o sgwennu, llai o'r doniolwch yn sicr. Ond erbyn hyn mae'n deg deud fy mod wedi mwynhau'r her," meddai.

Derbyniodd Lleucu Radd MA mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor a daeth ei thalent arbennig i'r amlwg pan enillodd Goron Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd yn 2009 gyda'i nofel fer *Eis-crîm* oedd yn llawn doniolwch. Yna yn 2013 cyhoeddwyd ei hail nofel, *Twll Bach y Clo*.

Mae *Ryc* nofel ar gael yn y siopau, a'r darllen yn cychwyn. A be' am Lleucu, oes ganddi syniadau am nofel arall?

"Dim ar hyn o bryd," meddai. "Bydd gwyliau haf yr ysgol yn cychwyn o fewn dim, felly y plantos, Llew ac Eila, fydd yn hawlio'r sylw, heb anghofio Gavin, y gŵr, wrth gwrs. Ond o ran yr ysgrifennu, mae creu llyfrau i blant yn rhywbeth sydd yn apelio, neu gyfres o straeon byrion o bosib. A phwy a ŵyr, efallai y bydd yna ail-hanner i ddilyn *Ryc* ryw ddiwrnod!"

Mae *Ryc* gan Lleucu Fflur Jones ar gael yn eich siop lyfrau leol neu o gwales.com

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon (yn y capel):**
**Mis Medi 2021:**
5 Medi – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
12 Medi – Oedfa dan ofal y Parchedig Denzil John
19 Medi – Oedfa dan ofal Rhys Powys
26 Medi – Oedfa dan ofal Emlyn Davies

**Mis Hydref 2021:**
3 Hydref – Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul
10 Hydref - Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys
17 Hydref - Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans
24 Hydref - Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
31 Hydref – Oedfa Sul Adferiad dan ofal Wynford Ellis Owen

---oooOOOooo---

A minnau dan orchymyn y Golygydd i ddarparu colofn mis Medi erbyn dydd olaf mis Gorffennaf, maddeued os bydd pethau wedi newid yn sylweddol yn y cyfamser, ac a fydd o'r herwydd yn gwneud y cyfraniad i "ddyddio" mymryn!



Gyda sioeau, gwyliau, eisteddfodau a thoreth o bethau eraill torfol wedi gorfod cael eu rhoi o'r neilltu am dymor arall, a'r ansicrwydd am hyd a lled amrywolion yr haint, pwy wyr yn wir ble y byddwn bryd hynny.

Ond "dyddio" neu beidio, mae'r stori sydd wedi torri'n ddiweddar am declyn a elwir yn Saesneg yn "*windolyser*" wedi dal fy sylw.

Mae'r "*windolyser*" yn gallu cael ei ddefnyddio yn unrhyw fan, ac yn adlewyrchu ymbelydrau o'r golau a deflir at wrthrych gwydr. Mae'r ymbelydrau yn cynnwys ol-bysedd cemegol, ac yn galluogi'r gwyddonwyr, drwy sbectometreg, i'w "ddyddio".

Mae'n siwr ei bod yn rhy gynnar i Eiriaduron Bruce na Phrifysgol Cymru gynnig enw Cymraeg am y teclyn, ond brysied hynny, oherwydd ei fod, yn fy meddwl i, yn haeddu pob clod a bri wrth ein galluogi i "ddyddio" gwydr heb ei ddifrodi.

Ond, digon teg fyddai eich sylw petaech yn ebychu "*so what*", a symyd i'r erthygl nesaf yn y papur bro?

"*Hold on Defi John*" fyddai fy ymateb i, beth petawn yn ymhelaethu bod y teclyn yma wedi bod o gymorth i "ddyddio" oedran y ffenestri lliw sydd yn Eglwys Gadeiriol Caergaint?

A mwy na hynny wedi darganfod y gallai rhai o'r ffenestri lliw rheini fod ymysg yr hynaf yn y byd?

Ydynt maent, yn ol yr arbenigwyr, wedi eu "dyddio" i ganol y ddeuddegfed ganrif (tua 1130 - 1160), ac felly, wedi bod yn dyst i lofruddiaeth Archesgob Caergaint, Thomas Becket yn 1170, a'r cais dilynol am edifarhad, yno ar ei liniau, gan y Brenin Harri'r 2il, a'r llosgi a'r difrodiant yn 1174.

Gwn nad yw Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, i'w gymharu ag Eglwys Gadeiriol Caergaint, yn enwedig yn ei symboliaeth hanesyddol i genedl y Saeson, ond tybed sawl un ohonoch sydd wedi sylwi ar y ffenestri lliw sydd yn y capel?

Wel, a bod yn fanwl, nid yn y ffenestri y mae'r gwydr, ond, yn hytrach, yn y drysau mewnol, ac hefyd yn y panel sy'n arwain o'r capel i'r festri.



Roeddwn yn rhyw gredu nad oedd croeso i "addurniadu" o'r fath mewn capeli Anghydffurfiol ym mro fy mebyd, ond 'rwyn cofio holi y diweddar T.W.Thomas am arwyddocad y gwydr ym Methlehem.

Cefais ar ddeall ganddo fod y paneli gwydr wedi dod o Eglwys Sant Catwg, Pentyrch, pan fu gwaith adnewyddu yno, a fod ganddo yn ogystal, esiampl o'r gwaith hwnnw yn ei gartref yn "Greenhurst", Pentyrch.

Beth bynnag am eu tarddiad – hwyrach y bydd haneswyr mwy trylwyr na mi a gwell gwybodaeth yn eu meddiant – bum innau'n myfyrio, fel y myfyriodd awdurdodau Caergaint, ar yr hyn a welsant ac a glywsant dros y blynyddoedd,


Dwi ddim yn ymwybodol bod llofruddiaeth wedi ei gyflawni o fewn muriau'r capel, er bod pethau eraill go amheus wedi digwydd yno o dro i dro yng nghwmni Pobol y Cwm!

Ond dychmygwch y gweinidogion a fu yma'n bugeiliol ers 1872 (a chyn hynny mewn adeilad arall) Oedfa dan ofal y Parchedig Denzil John, ac eraill, ar rawd yn pregethu o Sul i Sul.

Sawl testun a godwyd, yn wir sawl pregeth a draethwyd o'r pwlpud?

Sawl emyn a ganwyd, sawl Salm a ddarllenwyd?

Sawl adnod a adroddwyd gan y plant cyn troi am yr Ysgol Sul?



Dychmygwch y mŵr o ganu yn y Cymanfaoedd Canu, dros gant ohonynt, ar ddydd Gwener y Groglith, a'r Arweinyddion rheini yn chwysu wrth chwifio'r baton, mewn tair sesiwn, o 10:30 a.m. hyd o leiaf 7:30 p.m.?

Sawl priodas, sawl bedydd, sawl angladd, a gynhaliwyd?

Sawl carol a seiniwyd, sawl Drama Nadolig a gyflwynwyd, sawl tro y bu i Mair a Joseff gael eu gwrthod gan berchnogion y gwestai, sawl angel fu ar ymweliad a sawl bugail gafodd ofn? Sawl camel a glymwyd wrth denyn ger giat y capel tra bod eu tywyswyr yn prysur osod eu hanrhegion, a gludwyd o'r "*dwyrain draw*", wrth droed y baban digyffro yn ei grud yn y Set Fawr?

Sawl aelod fu ar y llyfrau, sawl "gwrandawr" fu'n eistedd ar y Galeri, ond yn fwy perthnasol, yng nghyfnod y Cofid a'r clo, sawl un na chaiff fyth eto fod yn rhan o'r gymdeithas glos hon?

Chawn ni, sydd ar ôl, ddim mwyach weld eu gwên trwy'r chwareli gwydr lliw wrth iddynt wthio'r drws a brysio i'w seddau cyn i'r oedfa ddechrau.

Chawn ni, sydd ar ôl, ddim mwyach sgwrs a hwy wrth fynd o'r capel i'r festri, heibio'r panel gwydr amryliw, ar ein ffordd i gael mwynhau paned o de wedi'r oedfa.

Chawsom ni, fel cynulleidfa ddim cyfle i ffarwelio â hwy a'u hebrwng tua thre ar eu siwrna olaf.

Wrth i'r teuluoedd rheini a ddioddefodd golledion ers mis Mawrth 2020 ddygymod a'u hunigrwydd, bydded i ni yma ym Methlehem, er cof amdanynt, gymeryd cip ar y gwydr lliw yn y panel a'r drysau bob hyn a hyn, gan ddiolch am eu cwmni a'u cyfraniad yma yn ein mysg.

A'n cyfrifoldeb a'n dyletswydd mwyach yw cadw'r drws ar agor er mwyn i genedlaethau'r dyfodol hefyd fwynhau a gwerthfawrogi llewyrch yr haul trwy'r gwydr lliw.

"*Windolyser*" unrhyw un?



## Ysgol Tonyrefail

**Gwobr Arian y Siarter Iaith**
Mae'r Criw Cymraeg wedi bod yn dathlu ennill gwobr arian y Siarter iaith yn ddiweddar. Diolch yn fawr i'r disgyblion, staff, rhieni a'r llywodraethwyr am eu gwaith caled yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol, ar yr aelwyd ac yn y gymuned leol. Llongyfarchiadau bawb!

**Blwyddyn 6**
Trist yw gorfod ffarwelio gyda disgyblion Blwyddyn 6 ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Braf oedd gallu cynnal parti iddynt yn yr ysgol a ffarwelio mewn steil! Maent wedi bod yn ddosbarth arbennig iawn ac fe fyddwn yn gweld eu heisiau yn fawr. Rydym yn edrych 'mlaen i glywed am eu llwyddiannau yn y dyfodol.

**Cadeirio**
Rhaid oedd cynnal seremoni gadeirio dra gwahanol i'r arfer eleni. Llongyfarchiadau arbennig i Brooke Larkman a ei champ arbennig yn ennill cystadleuaeth y gadair a llongyfarchiadau mawr hefyd i Faith Thomas-Wood ar ddod yn ail ac i Amelia Kirby a Natalia Thomas a ddaeth yn gydradd drydydd.

**Gweithgareddau Diwedd Tymor**
Gan nad oedd modd trefnu tripiau eleni daeth Mini Mayhem a'u cestyll neidio a chwrs antur i'r ysgol i'r plant gael mwynhau. Daeth y fan hufen iâ i ymweld a'r plant hefyd, roeddem yn hynod ffodus bod yr haul wedi gwenu arnom. Cafodd pawb amser wrth eu boddau!



Y Dosbarth Derbyn wedi mwynhau bod ar y castell neidio

**Trosglwyddo**
Roedd Blwyddyn 6 wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gael ymweld ag Ysgol Llanhari fel rhan o'u gweithgareddau trosglwyddo. Diolch yn fawr am drefnu bore o weithgareddau hwyliog i'r plant.

**Jambori'r Urdd**
Roedd disgyblion yr ysgol o'r Dosbarth Meithrin i Blwyddyn 6 wedi mwynhau dawnsio a chanu gyda Jambori rhithiol yr Urdd. Syniad ardderchog!



Bl3 a 4 wedi mentro ar y cwrs antur.

## TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

**Llinos yn codi arian**
Ddydd Sadwrn, y 10fed o Orffennaf, cynhaliwyd Mighty Hike Macmillan ym Mro Gŵyr. Gallech ddewis cerdded hanner marathon neu farathon llawn i godi arian tuag at yr elusen clodwiw yma.

Pedwar ffrind a ddewisodd wynebu'r her lawn oedd Llinos Owen o Donyrefail a Sarah, Anna a Carl o'r Rhondda. Maent yn hynod falch o fod wedi cyflawni hyn, gan godi cyfanswm o £2075 rhyngddyn nhw. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw.






Y dosbarth Meithrin yn canu a dawnsio yn y Jambori



Hufen Ia yn yr Haul!




Parti Ffarwelio Blwyddyn 6





Seremoni Cadeirio

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Pen-blwydd Arbennig**
Fe ddathlodd Shelagh Griffiths, Heol y Ffynnon, ei phen-blwydd yn 80 oed ganol mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau gwresog iti, Shelagh. Bu'r teulu i gyd yn dathlu gyda chinio hyfryd ym Mwyty'r Caesar's.

**Croeso Adre'**
Mae Gwenno Rees, merch Geraint a Caroline wedi dod adref at y teulu am wyliau o Tansania. Mae wedi treulio blwyddyn yn dysgu yn Ysgol Ryngwladol Mwanza. Bu'n rhaid iddi dreulio cyfnod diflas yn hunan-ynysu mewn gwesty yn Llundain cyn cael teithio nôl i'r Efail Isaf. Bydd Gwenno wrth ei bodd yn cael ymlacio gyda'r teulu a'i ffrindiau tan ddiwedd mis Awst cyn dychwelyd i gyfandir Affrica am flwyddyn arall.

**"Heno Aur"**
Wrth wylio rhaglen Angharad Mair a Siân Thomas ar y teledu nos Fercher, Gorffennaf 21ain cafodd Carey a minnau dipyn bach o sioc i weld cymydog inni'n canu. Cyfres sy'n creu atgofion a dathlu'r nawdegau yw "Heno Aur" ac roedd yn braf gweld Cedwyn Aled yn perfformio ar y rhaglen.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i holl ieuenctid y pentref sydd wedi derbyn graddau rhagorol yn eu harholiadau eleni yn dilyn blwyddyn addysgol anodd a heriol. Dymuniadau gorau iddynt i gyd wrth ddechrau ar eu hastudiaethau yn y Brifysgol.

Bydd Siôn Elfyn a Brengain Rhys yn mynd i Fangor, Huw Griffiths i Gaerdydd, Gruffydd Roberts i Gaergrawnt a Steffan West i Fanceinion. Bydd pentref Efail Isaf a'r cylch yn gweld eich colli, yn enwedig yng nghyfarfodydd Teulu Twm. Mwynhewch eich cyfnod yn y Coleg a dymuniadau gorau i chi i gyd i'r dyfodol.

**Pob Hwyl Iwan**
Mae wedi dod yn ddiwedd cyfnod i Iwan West, mab Mike a Lyn West, Parc Nant Celyn. Treuliodd Iwan wyth mlynedd hapus iawn yng Nghanolfan Arbenigol Ysgol Gyfun Glantaf, yng Nghaerdydd. Mae Iwan am ddechrau ar brofiad gwaith cyn hir. Pob lwc i ti, Iwan.

Mi ysgrifennodd Glenys Roberts gerdd bwrpasol iawn i Staff y Ganolfan yng Nglantaf i ddiolch iddynt am eu hymroddiad a'u gofal.



Am y cariad, y cwtshys a'r gofal
A'r amynedd wrth ateb ei gri,
Ac am weled addewid pob diwrnod
Mae Iwan yn diolch i chi.

Am ei annog, ei feithrin a'i arwain
Am y chwerthin a'r gwenu a'r sbri,
Ac am weithio mor galed bob amser
Mae Iwan yn diolch i chi.

Am greu hafan ar ynys fach lawen
I'w amddiffyn bob dydd rhag y lli,
Ac am fentro a herio yn eofn
Mae Iwan yn diolch i chi.

Am agor ei lygaid i weled
Byd natur a'i wyrthiau di-ri
Ac am gerdded bob dydd gam ymhellach
Mae Iwan yn diolch i chi.

Am ddangos rhyfeddod pob gwanwyn
A'r hydref a'i liwiau di-ri
Ac am ddyfalbarhau drwy bob gaeaf
Mae Iwan yn diolch i chi.

Diolch i Glenys Roberts am grisialu'r cyfan mor fendigedig.

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Cliff ac Eifiona Hewitt, Penywaun, bu'n dathlu eu Priodas Aur dydd Sadwrn, 31 Gorffennaf.

**Y TABERNACL**
**Oedfa'r Cyfundeb**
Yn ôl yr arfer cynhaliwyd Oedfa'r Cyfundeb i holl Eglwysi'r Annibynwyr yn y De-ddwyrain ar Orffennaf 11eg. Eleni o Gapel y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr ddaeth yr Oedfa, ond ymuno'n rhithiol fu'n rhaid i'r gwrandawyr y tro hwn. Rhoddwyd tipyn o sylw i Raglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Roedd y Parchedig Robin Samuel, Swyddog Cynnal ac Adnoddau'r Undeb wedi hysbysu'r Tabernacl yn yr Efail Isaf fod y cais am Swyddog Ieuenctid a Chymunedol wedi ei dderbyn ac y byddai'r eglwys yn derbyn nawdd ariannol. Talwyd tipyn o sylw i'r cais yn ystod yr Oedfa ac mi wnaeth Gwilym Huws, Edwyn Evans, John Llewelyn Thomas ac Emlyn Davies roi braslun o hanes y cais yn ogystal â sôn am y gweithgaredd o fewn yr eglwys yn yr Efail Isaf.

**Mynd yn ôl i'r Capel?**
Mae'n bosibl y cawn fynd nôl i gyd-addoli yn y capel cyn hir, gan obeithio na fydd ton arall o'r feirws erchyll yn dod i rwystro ein cynlluniau. Mae'n debyg felly y bydd yn bosibl ail-gyfarfod yn adeilad Y Tabernacl ar Fore Sul, Medi 5ed.

Er na fu cyfarfodydd yn adeilad Y Tabernacl ers tro byd, mae'n deg dweud na fu'r eglwys ar gau. Fel rwyf wedi sôn lawer tro yn y golofn hon mae'n diolch enfawr ni i'r bobl sydd wedi trefnu cyfarfodydd rhithiol inni o Sul i Sul yn ddi-dor, ac am y cylchlythyr wythnosol gwych, "Dolen y Tab".

# IESTYN MEWN DU A GWYN

"DŴR DROS RADDFA LLIW"

Bob dydd ti'n trio dy orau glas.
Yn anwybyddu sŵn y byd o'th gwmpas.
Yn dal dy wynt a'n codi dwrn
Heb aros nes nos Sadwrn.

Ti'n gweld dy boen mewn creithie!
Ond weithie mae dy groen yn dal y
sŵn a'r sad.
Ti'n ffugio gwên wrth droi at dad.
Ti'n dal yn ôl
Yn dilyn dy arferol
Heb ddangos dim ond finnau'n bod.

Does dim byd byth yn bod!

Mae'n anodd nabod un o'r llall
Ac un arall sy'n cerdded ataf
Yn esgus ymddiddori mewn straeon
a ddwedaf i!
Yn gwrando ar donfeddi'r car heb
gymryd llawer i mewn.
Llefariaid ewn sy'n cronni mewn pydew.
A neb yn gweld yn iawn.

Fi'n gwylio troi yr awr.
Yn gweld y lliwiau'n torri'n frau
Y gorau glas yn rhagflas milain
Yn shêd
Yn cael ei rannu
Yn "un o rhain"
Yn rhywbeth arall i'w brynu
I'n llowcio mewn i natur hoffi.
A'n bell o naturiol yw hynny!

# Ysgol Garth Olwg



**Prif swyddogion**

Pleser yw cyhoeddi bod Ella Minas a Bethan Lloyd o flwyddyn 12 wedi cael eu penodi i rôl Prif Swyddogion Ysgol Garth Olwg. Llongyfarchiadau iddynt ac i Brychan Lewis a Harry Crook am gael eu penodi fel Dirprwy Brif Swyddogion. Rydym yn edrych ymlaen at weld yr holl waith byddant yn cyflawni'r flwyddyn nesaf.

**Jambori'r Urdd**

Cafodd disgyblion yr Ysgol Isaf hwyl a sbri yn canu a dawnsio'n Jambori'r Urdd!








**Llwyddiant rhedeg**

Llongyfarchiadau i dîm rhedeg staff Garth Olwg am ddod yn gyntaf yn ras gyfnewid Mae hi'n rhedeg: Caerdydd. Da iawn chi!




**Taith yr Adran Gymraeg**

Roedd criw Safon Uwch Cymraeg wedi mwynhau'n arw ar daith i Aberystwyth. Cawsant drafodaeth ddifyr ar rai o hen lawysgrifau Cymru gan yr Athro Ann Parry Owen a hyfryd oedd gweld un o dariannau dreigiau Cymru yn Abaty Ystrad Fflur!





# Ysgol Garth Olwg
**(Parhad o dudalen 10)**

**Blwyddyn 5 a 6**

Cynhaliwyd seremoni gadael CA2 urddasol iawn i ddisgyblion Blwyddyn 6 a llongyfarchiadau i Jac Thompson ar ennill gwobr Disgybl y Flwyddyn.





Roedd pawb wedi cael amser da iawn ar y daith diwedd blwyddyn i Ynys y Barri!









Llongyfarchiadau enfawr i ferched Blwyddyn 6 am gymryd rhan yng nghwis y clwstwr.



**Elusennau**

Bu disgyblion yr Ysgol Isaf yn rhedeg 2k a'n creu anrhegion i'w rhieni i godi arian ar gyfer yr elusen a ddewiswyd gan ddisgyblion yr ysgol - Cancer Research UK. Maent wedi llwyddo i godi dros £1200!

Bu Blwyddyn 12 yn brysur yn trefnu gweithgareddau ar gyfer y Sepsis Trust a llwyddwyd i godi £1134 tuag at yr achos.

Da iawn chi ddisgyblion!





# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
*Dawn Walters*

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Teilo Dyfed Evans, mab Carys a Dean Evans, Porthcawl. Yn ddiweddar dyfarnwyd gradd dosbarth cyntaf i Teilo mewn Ffrangeg a Hanes Celf o Brifysgol St Andrews yn yr Alban. Mae Teilo yn ŵyr i Mrs Margaret Evans. Yn drist iawn, hunodd Margaret yn dawel ym mis Hydref y llynedd.

Ym mis Medi bydd Teilo yn parhau â'i astudiaethau gan fynd i gyflawni gradd meistr mewn Hanes Celf yn Courtauld Institute of Art yn Llundain. Bydd yn arbenigo mewn casglu a churadu celf fodern Ewropeaidd rhwng 1863 a 1930. Dymunwn bob llwyddiant iddo at y dyfodol.



**Llygedyn o Olau yng Nghapel Calfaria**

Yn ddiweddar, comisiynwyd yr artist Karl Davies o Bontypridd i gynhyrchu paentiad o gapel Calfaria, Evanstown. Daeth Karl draw i Gilfach Goch i gynhyrchu astudiaeth bras o'r capel cyn mynd at ei waith. Agorodd gapel Calfaria ei ddrysau yn 1899, a buan iawn y daeth yn ganolbwynt diwylliedig a chrefyddol i boblogaeth Evanstown a thu hwnt. Yn anffodus, mae'r capel bellach wedi cau ers sawl blwyddyn, ond y gobaith yw y bydd paentiadau Karl yn sicrhau na aiff yr adeilad hardd hwn fyth yn angof.

## Cofio Bardd a Cherddor Coll Gilfach Goch. David Daniel (Alaw Myrddin)

Symudodd David Daniel o Gastell Nedd i Gilfach Goch yn 1864, ag yntau ond yn wyth mlwydd oed. Yn ôl pob son, daeth i Gilfach Goch i aros gyda pherthnasau a oedd ymhlith y cyntaf i ymgartrefu yn y cwm. Soniwyd ganddo'n aml am y daith hir a throellog gyda'i rieni (a anwyd yn Sir Gaerfyrddin). Daethant ar y trên i'r Rhondda drwy Aberdâr a Hirwaun, cyn cyflawni rhan olaf y daith i Gilfach Goch trwy gerdded o'r Cymer i Drebanog, ac yna dros y mynyddoedd. Pan gyrhaeddon nhw, roedd y cwm mewn tywyllwch, a'r unig olau oedd ganddynt i'w helpu ar eu taith yn deillio o'r bythynnod a adeiladwyd gan y werin bobl.

Ymgartrefodd Daniel a'i deulu mewn bwthyn bychan yn Scotch Row. Yno, yn byw gyda'i berthnasau, y dysgodd sut i ganu'r harmoniwm, ac y daeth i ddechrau cyfansoddi amrywiaeth o emynau ac anthemau. Yn fuan iawn, daeth yn ffigwr dylanwadol iawn o fewn y gymuned, gan iddo drefnu llu o ddigwyddiadau diwylliedig a cherddorol, gan gynnwys Eisteddfod gyntaf y cwm. Bu'r Eisteddfod yn llwyddiant ysgubol, gyda nifer fawr o gystadleuwyr yn cerdded o bell i gystadlu yn Gilfach Goch. Mewn Eisteddfod arall a gynhaliwyd yn Aberdâr, derbyniodd Daniel y wobr gyntaf am gyfansoddi emyn-dôn, mewn cystadleuaeth oedd â dros wythdeg o geisiadau. O ganlyniad i'r sylw haeddiannol a roddwyd iddo, datblygodd i fod yn arweinydd amryddawn mewn gwyliau corawl a gynhaliwyd yn y cwm. Canwyd nifer o'i gyfansoddiadau, gan gynnwys, 'Y Ffigysbren', 'Y Nef i Ni', ac 'Y Blodau Gwywedig', mewn cymanfaoedd canu amrywiol am sawl blwyddyn yn yr ardal leol.

Serch hyn, emyn-dôn mwyaf poblogaidd Daniel oedd 'Buddugoliaeth'. Canwyd 'Buddugoliaeth' mewn cymanfa ganu yn Gilfach Goch dros gan mlynedd yn ôl, ar y 9fed o Fai, 1921. Yr arweinydd, Mr Arthur Thomas LTSC o Aberdâr, oedd wrth y llyw. Yn ogystal â chyfansoddi ac arwain, roedd Daniel hefyd yn mwynhau ysgrifennu barddoniaeth. Danfonwyd cerddi ganddo'n aml i gyhoeddwyr a'u hargraffodd mewn cyhoeddiadau hygyrch. Daeth hefyd i ennyn diddordeb yn hanes lleol y cwm, gan gymryd amser yn aml i ymweld â ffermydd oedd wedi bod yn y cwm ers cyn cyfnod y Chwyldro Diwydiannol. Casglodd hanesion y bobl a fu'n byw yno, ond yn anffodus, fe'u dinistriwyd yn ddiweddarach.

Treuliodd Daniel flynyddoedd olaf ei fywyd yn byw gyda'i wraig (brodor o Lan Conwy) yn 143, High Street. Roedd nai Daniel, David Daniel Jr., yn allweddol wrth sefydlu Cymdeithas Ddrama Gilfach Goch, wedi iddo fod yn aelod brwd o Gymdeithas Ddrama Bryn Seion. Ymddangosodd ef yng nghynhyrchiad cyntaf y gymdeithas, 'Dr Wake's Patient', lle serennodd gyferbyn â'r actores enwog Rachel Thomas (a fu gynt yn athrawes yn Ysgol Abercerdin, Gilfach Goch). Claddwyd David Daniel, ei rieni, ei frawd, Dafydd, yn ogystal â nifer o'i neiaint a'i nithoedd yn y fynwent yn eglwys Llandyfodwg, ger Gilfach Goch.

D. Evans, Porthcawl

Parhad tudalen 13 >




# Gilfach Goch

(Parhad)

Gwaith Alaw Myrddin



"Y NEF I NI"

At Wasanaeth yr Ysgol Sabbothol,

GAN


DAVID DANIEL (Alaw Myrddin)

Y GEIRIAU GAN

Mr. J. V. DAVIES (Ioan Heulog).

PRIS CEINIOG YR UN.

10406 Robert Davies a'i Gyf., Argraffwyr, Tonypandy.



RHAGLEN

Cymanfa Gerddorol

Bedyddwyr Tonyrefail a'r Cylch,

YR HON A GYNELIR YN

GILFACH GOCH.

DYDD LLUN, MAI 9fed, 1921.

Y Cyfarfodydd i ddechreu am 10 30, 2, a 6.

Arweinydd—

Mr. Arthur Thomas, L.T.S.C., Aberdar

Cyfeilwyr—

Mr. Johnny Hopkins, Gilfach Goch, a

Miss Maggie Lewis, A.V.C.M., Tonyrefail.

PRIS - - PEDAIR CEINIOG.

R. H. Mason, Argraffydd, Nantymoel.

# Ysgol Pont-Siôn-Norton



**Dolygaer**
Cafodd blwyddyn 6 ddiwrnod arbennig iawn wrth ymweld â Chanolfan Dolygaer am y dydd. Roeddynt wrth eu boddau gyda'r holl weithgareddau gwych!

**Mabolgampau Y Cyfnod Sylfaen**
Fel rhan o hwyl yr Haf, cafwyd mabolgampau ar iard yr Ysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Roedd llawer o weiddi, clapio a chwysu wrth i bawb gael llawer o sbort a sbri!




**Parc**
Aeth yr Adran Iau lawr i Barc Ynysangharad ar gyfer eu hwyl ar ddiwrnod braf o Haf. Roedd yr haul yn gwenu a'r plant yn wrth eu boddau i ffwrdd o'r Ysgol!



**Gardd Eco**
Mae'r Cyngor Eco wedi bod yn brysur iawn yn plannu blodau a llysiau o amgylch yr Ysgol. Mae'r Ysgol yn edrych yn lliwgar iawn nawr! Diolch!



**Hwyl Fawr**
Hoffai staff a phlant PSN ddymuno'n dda i Mrs Michelle Barry wrth iddi ddechrau yn ei swydd newydd fel Dirprwy Ysgol Rhydygrug. Diolch yn fawr iawn i ti am dy holl waith dros y blynyddoedd. Mi fyddwn ni i gyd yn gweld dy eisiau di.



**Blwyddyn 6**
Hwyl Fawr a Phob Lwc i flwyddyn 6 hefyd wrth symud ymlaen at y cam nesaf i Ysgol Garth Olwg. Cafwyd prom hyfryd i ddathlu diwedd PSN ac roedd pawb yn edrych yn smart iawn. Mwynhewch ac ewch am bob cyfle a gewch!

**Raffl PSN**
Diolch i bawb a gefnogodd ein raffl eleni. Codwyd £3000!! Diolch i Ffrindiau PSN am drefnu'r raffl ac i'r holl gwmniau am y gwobrau gwych.

**Jambori**
Bu pawb yn ymuno gyda'r canu a'r dawnsio yn eu dosbarthiadau wrth fwynhau'r Jambori rhithiol! Diolch i'r Urdd am y Jambori.

**Llun Pontypridd**
Llongyfarchiadau i Millie am ddod yn gyntaf ac i Brychan am ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth Celf Clwb Y Bont. Ardderchog!





# Ysgol Llanhari

Bu'n hanner tymor olaf prysur yn Ysgol Llanhari wrth i flwyddyn hynod anarferol dynnu at ei therfyn. Dyma rhai o uchafbwyntiau'r hanner tymor ers Sulgwyn.

**Gwobrau Rhys Rubery**
Mae teulu Rhys a'r elusen a sefydlwyd er cof amdano sef RR81 wedi sefydlu gwobr a roddir yn flynyddol i ddisgybl o flwyddyn 6 a blwyddyn 11 sy'n ymgorffori gwir ysbryd yr ysgol. Yr enillwyr am y tro cyntaf eleni yw Ben Hawkshaw o flwyddyn 11 a Gwenno Davies o flwyddyn 6. Llongyfarchiadau gwresog i'r ddau, y ddau ohonynt yn enillwyr teilwng iawn. Diolch yn fawr i'r teulu am eu rhodd hael a phleser oedd cyflwyno'r gydnabyddiaeth i Ben a Gwenno ar ddiwrnod olaf Tymor yr Haf





**Hwyl fawr am y tro!**
Hyfryd oedd dathlu diwedd cyfnod a diwedd taith criw arbennig o ddisgyblion blwyddyn 13 eleni. Diolch iddynt i gyd am eu cyfraniadau niferus i Lanhari ar hyd y blynyddoedd a phob lwc iddynt i'r dyfodol.
Llongyfarchiadau arbennig i Dewi Middleton, enillydd gwobr goffa Merfyn Griffiths.



Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 11yn ogystal ac edrychwn ymlaen at groesawu criw da ohoynt yn ôl i'r chweched dosbarth ym mis Medi. Mewn gwasanaeth rhithiol i ddathlu'r bum mlynedd ddiwethaf, dyfarnwyd gwobr rotari Llantrisant i Harri Welsh, disgybl y flwyddyn. Llongyfarchiadau hefyd i Daniel Beaumont, Bethan Jayne a Cerys Owen a ddewiswyd gan yr athrawon i dderbyn gwobrau cyflawniad cadarnhaol eleni.

Hwyl fawr hefyd am y tro i ddisgyblion blwyddyn 6 Llanhari a fydd yn croesi'r trothwy o'r adran gynradd i'r adran uwchradd ym mis Medi. Fe gawson nhw wythnos o ddathliadau yn cynnwys brwydr ddwr, parti traeth a llawer o hufen iâ!







**Prif swyddogion Medi 2021-22**
Llongyfarchiadau gwresog i Celyn Harry, Siwan Ellis a Dyfan Krieger ar gael eu dewis yn brif swyddogion Ysgol Llanhari ar gyfer y flwyddyn addysgol nesaf. Edrychwn ymlaen yn fawr at eu gweld yn arwain y disgyblion. Mae'r tri yn dilyn ôl troed brodyr a chwiorydd hŷn fu hefyd yn brif swyddogion Llanhari. Pob dymuniad da i chi'ch tri!



**Dathlu themau'r adran gynradd**
Uchafbwynt themau'r adran gynradd yn ystod y tymor oedd dathliadau'r parti deinosoriaid a dathliadau llwigar dros ben y carnifal. Hyfryd gweld y mwynhau a'r holl ymderchion creadigol!





**Taith i Fannau Brycheiniog**
Treuliodd disgyblion blwyddyn 10 sy'n astudio cymhwyster galwedigaethol Gweithgareddau Awyr Agored ddeuddydd yn ymarfer eu sgiliau ar daith i Fannau Brycheiniog ar ddechrau mis Gorffennaf. Er gwaethaf deuddydd cyfnewidiol iawn o ran tywydd, bu'n brofiad arbennig i'r disgyblion a diolch i Mr Roberts a Mr Pari am eu harwain ar y daith i gopa Pen y Fan a chrwydro'r Bannau yn ymarfer sgiliau cyfeiriannu.







# Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

**Hwyl fawr a phob lwc**

Ar ddiwedd tymor yr haf, gadawodd 3 aelod o staff profiadol yr ysgol. Hoffem ddymuno ymddeoliad hapus iawn i Mrs Anwen Robins a Mrs Frances Charles a dymuno'n dda i Miss Kelly Davies sy'n dechrau astudio cwrs gradd ym mis Medi. Diolch yn fawr i'r tair ohonynt am eu gwaith diflino a'u cyfraniad gwych i gymuned yr ysgol dros gymaint o flynyddoedd. Cofiwch ddod yn ôl i'n gweld.



**Ffarwelio â Blwyddyn 6**

Bu wythnos olaf y tymor yn un hynod o brysur i flwyddyn 6. Cafwyd sioe ffasiynau, gwasanaeth ffarwel ar iard yr ysgol, ymweliad gan fan hufen iâ, prynhawn ffilm a seremoni wobrwyo arbennig. Byddwn yn gweld eich eisiau. Pob hwyl i chi gyd yn yr ysgol uwchradd.

**Enillydd Cwpan Jessica**

Llongyfarchiadau i Gethin Duggan o flwyddyn 6 am ennill Cwpan Jessica eleni. Diolch i ti am dy frwdfrydedd ac am wneud gymaint dros yr ysgol ar hyd y blynyddoedd. Rwyt yn esiampl i ni oll.



**Cystadleuaeth Gelf Clwb y Bont**

Llongyfarchiadau i Joseph Vukashin-Jones am ddod yn ail yng nghystadleuaeth gelf y clwstwr. Roedd ei lun o hen bont William Edwards yn wych ac fe fydd yn cael ei arddangos yn yr ysgol.



**Mabolgampau**

Er gwaethaf y cyfnod gwahanol hwn, cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar safle'r ysgol yn ein swigod. Mwynheuodd pawb yn fawr iawn yn yr heulwen. Elai oedd y llys buddugol eleni. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

**Pêl-droed yn Lerpwl**

Cafodd Lowri Phillips o flwyddyn 4 ddiwrnod i'w gofio pan aeth gyda thîm Academi Cambrian i chwarae yn erbyn Academi Lerpwl. Edrychwn ymlaen at glywed mwy am helyntion Lowri ar y meysydd chwarae dros y misoedd nesaf.

**Sêr Radio Cymru**

Yn ystod wythnos olaf y tymor, cyflwynodd 5 o blant o flynyddoedd 3 a 4 eu hoff gân Gymraeg ar Radio Cymru bob bore. Roedd y dewisiadau yn amrwyiol iawn ac fe gyflwynodd pob un ohynynt yn hyderus a'n hapus. Gwych blant.




# Côr Hen Nodiant

Er gwaetha'r pandemig a'r cyfnod clo pan nad oedd yn bosib i aelodau'r Côr gwrdd a chynnal ymarferion, roedd modd i ni gadw mewn cysylltiad drwy ebost a grŵp Whatsapp a sefydlwyd yn arbennig. Cysylltu o bell, twtsh heb gwtsh, codi ysbryd yn electronig, gan roi cyfle i ni gael ein difyrru gan fideos a lluniau dwys a doniol, i gyd-ddathlu penblwyddi a phenblwyddi priodas (amryw ohonyn nhw'n rhai aur) ac i roi gwybod am aelodau neu deulu aelodau a oedd wedi profi salwch neu brofedigaeth ac i gydymdeimlo â nhw. Bu rhai o'r aelodau hefyd yn cymryd rhan yn ddigidol yn Eisteddfod Amgen 2020 drwy berfformio 'Dros Bont y Glaw' a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer corau ledled Cymru. Yn ogystal, lluniwyd baner drawiadol gan ddwy o'n haelodau, Jan Erskine a Marion Evans, a phrynodd nifer ohonom fygydau du a oedd yn dwyn enw'r côr.

**Te parti**

Ddechrau Gorffennaf eleni, trefnwyd dau de parti wyliog a llwyddiannus yng ngardd y Cadeirydd, Arwel Elis Owen ac roedd mwyafrif llethol o'r aelodau yn awyddus i ailgydio yn yr ymarferion wrth i'r cyfyngiadau Covid lacio a chynnig mwy o opsiynau i ni ailgyfarfod.

**Miwsig ar y maes**

Felly, o fis Medi ymlaen, bydd yr ymarferion yn ailddechrau ond mewn lleoliad newydd. Y bwriad yw eu cynnal yn un o eisteddleoedd Stadiwm y Principality bob nos Fercher am awr. Byddwn dan do ac yn cadw at reoliadau Covid Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau diogelwch pob aelod. Y nod yw ymarfer y darnau i'w perfformio, gobeithio, yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron yn 2022 a chymdeithasu, wrth reswm!

**Recriwtio**

Mae'r Côr yn awyddus i recriwtio aelodau newydd ar gyfer pob llais, ond yn enwedig y tenoriaid. Os ydych dros 60 oed ac yn mwynhau canu mewn côr, anfonwch gais drwy ebost at y pwyllgor at **corhennodiant@gmail.com**

**Dwy briodas**

Dros wyliau'r haf, fe fydd dau aelod o staff yn priodi. Pob dymuniad da i Miss Kelly Davies a Miss Anwen Jones ar achlysur eu priodas. Gobeithio y cewch chi'ch dwy ddiwrnod bendigedig yn dathlu.

## Ysgol Llanhari
### (Parhad)

**Mabolgampau a chwaraeon**
Braf iawn ar ddiwedd blwyddyn lle bu llawer o gyfyngiadau o ran chwaraeon, oedd gallu cynnal mabolgampau'r adran gynradd a chystadlaethau rhwng dosbarthiadau'r adran uwchradd. Llys Aran a orfu yn yr adran gynradd tra mai y llythyren F oedd yn allweddol yn yr adran uwchradd, gyda 7F, 8F, 9F a 10 F yn fuddugol!





**Codi arian i elusen Felindre**
Diolch i bawb a gyfrannodd i'r elusen teilwng hwn yn ystod yr hanner tymor. Codwyd £520 trwy wisgo coch a chefnogi ymdrechion tim Cymru ym Mhencampwriaethau'r Ewros.



**Diwrnod Trosglwyddo i flwyddyn 6**
Hyfryd oedd gallu croesawu disgyblion blwyddyn 6 y clwstwr ar gyfer diwrnod trosglwyddo ar ddechrau mis Gorffennaf. Bu disgyblion Dolau, Tonyrefail, Llantrisant a Llanhari yn brysur iawn yn datblygu eu sgiliau cyfeiriannu o amgylch safle'r ysgol, sgiliau samba ac yn braslunio. Diolch i'r athrawon a fu'n arwain y sesiynau ac i Mrs Webb am drefnu'r diwrnod. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn swyddogol i flwyddyn 7 ym mis Medi.



## Soned 'Yr Haint' yn fuddugol

Martin Huws o Ffynnon Taf enillodd gystadleuaeth y soned yng Ngŵyl Fawr Aberteifi a'r testun oedd 'Yr Haint'.

Dywedodd y beirniad, Elinor Wyn Reynolds o Gaerfyrddin, fod wyth wedi cystadlu ac yn nhymor yr haint, y Covid, roedd yn iawn fod y testun wedi'i ddewis. 'Mwynheais ddarllen y sonedau bob un,' meddai, 'ac roedd rhywbeth bachog neu drawiadol ymhob un. Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd.'

Roedd soned *Otto*, meddai, am benderfyniad y Natsïaid yn 1933 i losgi llyfrau 'peryglus' yn Bebelplatz Berlin. 'Yr haint yn y fan yma yw rhagfarn y Natsïaid, eu casineb, eu hofn nhw o bethau yr oedden nhw'n eu hystyried y tu allan i'w cyfundrefn gul nhw. Dim ond un ffordd o feddwl oedd i fod, dim ond un ffordd o fyw, a dim ond un math o bobl ddylai gael byw.

'Mae'r gerdd yn ddeallus, yn drawiadol ac wedi'i hysgrifennu'n dda. Mae'r mynegiant barddonol yn glir a chroyw ac mae sawl disgrifiad sy'n taro deuddeg. Ergyd y soned yw, er gwaetha'r difa gwallgof, nid yw'n bosibl difa syniadau.'

Dyma hi:

**Yr Haint**
*Bebelplatz, Berlin*

Yng ngwres y foment gwawriai'r nos yn goch,
mewn fflamau gwyllt roedd drychiolaethau rhyfedd.
O dan eu swyn fe waeddai'r dorf yn groch.
Fe wedodd rhai taw hwn oedd dechrau'r diwedd.

Fe af i'n ôl i rywle sy'n coffáu
y goelcerth hy gynhyrfai oes wahanol,
y silffoedd gwag yn dyst i'n rhyddid brau
cyn sgubwyd ni gan gorwynt croch dinistriol.

Am hyn oll, Dduw, a wnei Di i ni faddau?
Cyfrolau Freud a Marx a drodd yn llwch.
Am hanner nos yn wallgo dawnsiai fflamau
eu gweledigaeth bur, y mwg yn drwch.

Y ffagal fflwch yn adrodd hanner stori:
er gwaetha'r gwres, syniadau ddim yn llosgi.

'Diolch i'r pwyllgor am drefnu Steddfod yn ystod cyfnod heriol,' meddai Martin. 'Gan fod y byd yn mynd yn fwy anoddefgar, yn enwedig ar ôl Brecsit, ro'n i'n twmlo bod y soned yn amserol.'

Yn yr un Eisteddfod daeth yn drydydd yng nghystadleuaeth yr englyn a'r beirniad y tro hwn oedd Aneirin Karadog. Dyma'r englyn:

**Cofio**
*Y cynghorydd sir*

Llais cras o deulu'r asyn – hy ei farn,
yn fwrn ar ei gyd-ddyn.
Emlyn yn fwlsyn a fyn
nadu am ryw droednodyn.

''Wy ddim am enwi neb,' meddai Martin, 'ond ma' sawl cynghorydd wedi bod yn ysbrydolieth.'

Gallwch ddarllen rhagor o gerddi Martin Huws yn y rhifyn gyfredol o Barddas.

Mae Gwasg y Bwthyn wedi cytuno i gyhoeddi cyfrol o farddoniaeth Martin.





